






EIN CYNNIG

Cynllun ymgysylltu ar-lein Voices From
Care Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc
profiadol o ofal yn ystob amhariadau
COVID-19

Mae hwn yn gyfnod digyffelyb i bob un ohonom, a bydd effaith y COVID-19 i blant a phobl ifance profiadol o ofal, gofalwyr maeth, a'r gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol. Gwyddom y bydd llawer o bobl ifanc yn teilmio'n unig ac yn ynysig oherwydd effaith COVID-19. Fel llawer o sefydliadau eraill, mae swyddfa Voices From Care Cymru ar gau dros dro gan ein bod yn dilyn cyngor y Llywodraeth

Rydym yn gwbwl weithredol yn ystod yr amser yma ac yn dal i gefnogi'r gymuned brofiadol o ofal yng Nghymru. Bydd yn rhaid i'n model cyflenwi neid am y dyfodol rhagweladwy. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu gwneud hyn. Byddwn yn ymdrechu i fod mor hyblyg ag y gallwn yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf can ein bod yn gwybod bod hon yn sefyllfa adweithiol sy'n datblygu'n barhaus.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau newydd wrth iddynt ddigwydd ond, am nawr, dyma ein cynnig i'n cymuned brofiadol o ofal. Mae Ein Cynnig yn agored i unrhyw blentyn neu berson ifanc profiadol o ofal, o'r ysgol gynradd hyd at y rhai sy'n gadal gofal hyd at 25.



EIN CYNNIG AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC PROFIADOL O OFAL

Cysylltu Cymdeithasol

Byddai aelod o dîm Voices yn cysylltu efo person ifanc drwy gyfres o alwadau ffôn, sgwrsio byw Facebook, galwadau ar Skype, neu dulliau eraill o gyfathrebu addas sydd ar gael. Pwrpas hwn yw cyswllt cymdeithasol gyda'r person ifanc i weld sut mae nhw a chael sgwrs gyffredinol. Byddai'r sgysiau cysylltu yn cael eu harchebu ar gyfer diwrnod ac amser penodol, gyda hyd a sgwrs a'r amledd yn cael ei dewis gan y person ifanc a slotiau sydd ar gael.

Cymorth Llesiant

Mae'r Swyddogion Llesiant yng Ngogledd Cymru a De Cymru yn parhau i weithio'n gwbl weithredol drwy gyfrwng ar-lein. Mae ein sesiynau Cymorth Llesiant yn wahanol i'n cysylltu ni, drwy ddarparu cynnig mwy strwythuredig yn y tymor hirach o gymorth holistaidd. Megis cymorth i hyrwyddo llesiant cadarnhaol, perthnasau iach, datblygiad personol, a chymorth gyda chyllidebu.

Cymdeithasu Ar-lein

Rydym isio cadw ein cymuned brofiadol o ofal wedi'i chysylltu'n gadarnhaol ac yn ymgysylltu a'i gilydd. Felly, byddwn yn treialu cyfres o sesiynau addysgiadol, cymdeithasol, llesiant a gweithredu cymdeithasol drwy gyfrwng y cyfrangau cymdeithasol i bobl ifanc ymgysylltu efo.

Cyngor & Gwybodaeth

Byddwn yn rhoi cyngor, cefnogaeth, a chynghor ar chwalu mythau i bobl ifanc o ffynanellau dibynadwy i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y newyddion diweddaraf am y canllawiau cyfredol ar COVID-19. Bydd hwn ar gael ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.

Cymdeithasu Pwrpasol

Ar gyfer y plant a'r bobl ifanc nad oes efo fynediad i gyfryngau cymdeithasol, hoffem gynnig y cyfle i gael gwiriad neu gymdeithasau ar-lein gyda thîm Voices ochr yn ochr â'u gofalwyr maeth neu staff preswyl yn y dull sydd fwyaf addas.

Cysylltu Cymunedau

Cefnogi pobl ifanc profiadol o ofal i gysylltu efo cylluniau gwirfoddol neu gymunedol sy'n dal i fod yn weithredol.

Sut y gall pobl ifanc derbyn cymorth.

Os oes gennych berson ifanc a hoffai gysylltu efo Voices From Care Cymru drwy un o'n cynigion o gymorth, os gwelwch yn dda:

- Llenwch y ffurflen atgyfeirio ar waelod y dudalen hon. Mae hyn er mwyn i ni allu cysylltu'n uniongyrchol â'r person ifanc am wiriad neu i'w helpu i ymgysylltu â'n sianeli cyfryngau cymdeithasol
- E-bostiwch ein Rheolwr Rhaglenni, Chris Dunn, a fydd yn ymateb gyda manylion pellach, ynghyd â'n hamserlen 'Cymdeithasu Ar-lein'. E=bost: Christopher@vfcc.org.uk
- Gall person ifanc ddod o hyd i ni ar gyfryngau cymdeithaol a chymryd rhan



Os ydych yn ofalwyr maeth, yn aelod o dîm preswyl, neu'n aelod o dîm Gwasanaethau Cymdeithasol a fyddai'n hoffi dod o hyd i fwy o wybodaeth neu ofyn am Gymdeithasu Pwrpasol, anfonwch e-bost at Chris a fydd yn ymateb mewn amser.

Ymestyn 'Ein Cynnig'

Gan ein bod yn gwybod bod hon yn sefyllfa adweithiol sy'n datblygu'n barhaus, mae sut y gallwn ni helpu yn debygol o newid. Nid yn unig fyddwn yn croesawu atgyfeiriadau ond hefyd adborth ar sut y gallwn eich cefnogi chi a phobl ifanc brofiadol o ofal yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rydym yn ymwybodol nad yw'r dulliau cyswllt uchod ar gael nac yn addas i bob person ifanc sy'n cael profiad o ofal, ond byddwn yn ceisio bod mor gynhwysol ag y gallwng fod.

Llawer o Ddiolch

TÎM VOICES